# CABINET

# 31 HYDREF 2022

**PRESENNOL: (Yn y Siambr)** Cynghorydd D. Price (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
C.A. Davies, L.D. Evans, P.M. Hughes, G.H. John, A. Lenny, E.G. Thomas.

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
G. Davies, J. Tremlett

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
W. Walters, Prif Weithredwr;
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;
N. Daniel, Pennaeth Gwasanaethau TGCh a Pholisi Corfforaethol;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata;
H. Morgan, Rhelowr Datblygu Economaidd;
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet;
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
A. Eynon, Prif Gyfieithydd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 10:00yb - 10:15yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd A. Vaughan Owen.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALWYD AR 17 HYDREF 2022

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2022 yn gofnod cywir.**

## 4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## 5. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 6. GOBLYGIADAU DEDDF RHENTU CARTREFI (CYMRU) 2016

Cafodd y Cabinet adroddiad ar oblygiadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) a oedd yn gofyn i beidio â defnyddio mwyach y tenantiaethau rhagarweiniol a'r hyn sydd wedi'u holynu o dan y Ddeddf.

Nododd Aelodau'r Cabinet o 1 Rhagfyr 2022, y byddai pob tenantiaeth a roddir gan landlordiaid yng Nghymru yn newid i fod yn ddeiliaid contract o dan drefn gyfreithiol newydd y Ddeddf Rhentu Cartrefi. Roedd y Ddeddf yn disodli'r ddeddfwriaeth dai ar denantiaethau a basiwyd gan Senedd y DU a byddai'r Ddeddf yn cyflwyno dim ond dau fath o 'gontract meddiannaeth' - un ar gyfer y sector rhentu preifat ac un ar gyfer y sector rhentu cymdeithasol - yn lle'r gwahanol fathau o denantiaethau a thrwyddedau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Nodwyd y byddai'r Ddeddf yn dod â hawliau newydd ac ychwanegol at ei gilydd i ddeiliad y contract, gan osod gofynion ar y landlord i weithredu o fewn amserlen resymol i geisiadau a sicrhau bod eiddo'n addas i fyw ynddo.

Rhoddodd Aelodau'r Cabinet ystyriaeth i brif oblygiadau'r Ddeddf fel yr oeddent wedi'u crynhoi yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**6.1 na fyddai'r Cyngor, o 1 Rhagfyr 2022 ymlaen, yn rhoi contractau meddiannaeth safonol ragarweiniol o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016;**

**6.2 bod penderfyniad blaenorol y Cyngor i weithredu trefn tenantiaeth ragarweiniol yn cael ei diddymu, a hynny ar unwaith.**

## 7. DIWEDDARIAD AR GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Ers i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2022, a oedd yn nodi egwyddorion cyffredinol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth baratoi ar gyfer y rhaglen fuddsoddi newydd.

Tynnwyd sylw at y ffaith, er bod y rhaglen wedi'i strwythuro o amgylch cynllun rhanbarthol, gydag Arweinydd Rhanbarthol (Cyngor Sir Abertawe), byddai'r cynllun yn cael ei roi ar waith ar lefel leol.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y dulliau cyflwyno arfaethedig canlynol:

• Prif brosiectau

• Prosiectau annibynnol
• Prosiectau a gomisiynwyd

Cafodd cwmpas y ddarpariaeth ar gyfer pob un o'r prif brosiectau arfaethedig ei atodi i'r adroddiad yn Atodiad 1.

O ran rheoli Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn Sir Gaerfyrddin, nododd Aelodau'r Cabinet fod y Gronfa wedi darparu tua 4% o'r adnoddau ar gyfer ariannu cymorth gweinyddol ar gyfer y rhaglen ac y byddai angen capasiti ychwanegol ar gyfer yr Awdurdod Lleol Arweiniol (Cyngor Abertawe) er mwyn darparu adnoddau ar gyfer cyflawni ei swyddogaeth reoli ranbarthol. Felly, byddai'r rhan fwyaf o'r gyllideb weinyddol o 4% yn cael ei defnyddio i ddarparu capasiti yn y timau rheoli lleol.

Daethpwyd i'r casgliad bod llawer iawn o gynnydd wedi'i wneud ers cyflwyno'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol i Lywodraeth y DU yn gynharach eleni. Wrth ddisgwyl am gymeradwyaeth ffurfiol gan Lywodraeth y DU, roedd y gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol yn eu lle a bod modd i'r ddarpariaeth ddechrau yn dilyn derbyn cymeradwyaeth Llywodraeth y DU.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**7.1 bod y camau a gymerwyd hyd yn hyn i alluogi'r Sir i elwa ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael eu cymeradwyo;**

**7.2 bod y prif brosiectau arfaethedig yn cael eu cymeradwyo;**

**7.3 bod y gwaith o sefydlu Tîm Rheoli'r Rhaglen a fydd yn gyfrifol am gyflawni'r Rhaglen ar lefel leol yn cael ei gymeradwyo.**

## 8. UNRHYW FATER ARALL

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

| | |
|---|---|
| **CHAIR** | **DATE** |